**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1399
Ein cyf/Our ref EM/00165/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11 Mawrth 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Ionawr ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1399 ynghylch gwneud anhwylder dysfforig cyn mislif (PMDD) yn rhan orfodol o addysg feddygol ôl-radd.

Rydym yn cydnabod yr angen i godi ymwybyddiaeth o fodolaeth a symptomau PMDD a'r effaith ddinistriol y mae'n gallu ei chael ar y rhai sy'n dioddef ohono. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y cyrff proffesiynol perthnasol yw gwneud penderfyniadau ynghylch cynnwys hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd, gan gynnwys addysg feddygol ôl-radd, ac nid ydynt yn fater y gall Llywodraeth Cymru ymyrryd ynddo.

Rydym yn gweithio gyda Gweithrediaeth y GIG i edrych ar sut y gellid ehangu'r wybodaeth a'r canllawiau ar-lein mewn perthynas ag iechyd mislif, gan gynnwys PMDD. Mae ein Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a Merched yn nodi'r hyn y disgwylir i fyrddau iechyd ei gyflawni i sicrhau bod gwasanaethau iechyd o ansawdd da ar gael i gefnogi menywod a merched ledled Cymru, ac rydym wedi ariannu cydgysylltwyr llesiant ac iechyd y pelfis ym mhob bwrdd iechyd i gyfeirio menywod at y gwasanaethau priodol.

Rydym hefyd wedi gofyn i GIG Cymru ddatblygu cynllun cynhwysfawr 10 mlynedd ar gyfer iechyd menywod. Bydd hyn yn gweithredu fel cyfrwng i drawsnewid y gofal a dderbynnir gan fenywod Cymru drwy gydol eu bywydau. Bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu gan y Rhwydwaith Iechyd Menywod, a gofynnir i'r rhwydwaith ymgysylltu â'r Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Anhwylderau Cyn Mislif fel rhan o'r broses hon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth uchod o gymorth ichi a'ch etholwr.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services